# Ymgynghoriad ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy

Dogfen Ymgynghori Statudol

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth<br>Ffordd y Garth<br>Garth<br>Trefor<br>LL20 7UY | Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte<br>Ffordd y Coetir<br>Llangollen<br>LL20 7SU | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre<br>Pentre<br>Y Waun<br>LL14 5AW |

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu Saesneg ar gais. Mae hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch fel print bras, Braille, DVD BSL a CD sain ar gais. I wneud cais am y ddogfen hon mewn fformat neu iaith arall, e-bostiwch DeeValleyConsultation@wrexham.gov.uk neu ysgrifennwch at y Ymgynghoriadau Dyffryn Dyfrdwy, Addysg, Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8BG.

## Cynnwys


Ymgynghoriad ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy ........ 1
- Cynnwys ........ 2
- Rhan A-Pam mae newid yn cael ei ystyried? ........ 4
  - Rhagair gan y Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar ........ 4
- Y Cynnig ........ 5
  - Cyflwyniad ........ 5
  - Pam mae angen newid? ........ 5
  - Cyd-destun Strategol ........ 5
  - Manylion yr Ysgolion yn y Cynnig hwn ........ 5
- Beth fyddai'r cynnig hwn yn ei olygu? ........ 9
- Yr Opsiynau a Ystyriwyd ........ 9
- Yr Opsiwn a Ffefrir ........ 9
- Rhan B-Y Cynnig-Yr Opsiwn a Ffefrir ........ 10
  - Rhesymeg ........ 10
  - Niferoedd Disgyblion Isel ........ 10
  - Cyfraddau Geni a Chyfraddau Poblogaeth yn Gostwng ........ 10
  - Dosbarthiadau Oedran Cyfunol ........ 10
  - Cyfleoedd Dysgu a Rhyngweithio â Chyfoedion ........ 10
  - Cyllideb Uchel Fesul Disgybl ........ 11
  - Adeiladau sydd wedi'u Tanddefnyddio ........ 11
  - Effeithiau Amgylcheddol ........ 11
- Rhan C-Effaith y Cynnig-Yr Opsiwn a Ffefrir ........ 11
  - Beth yw manteision posibl yr opsiwn a ffefrir? ........ 11
  - Beth yw anfanteision posibl yr opsiwn a ffefrir? ........ 11
  - Crynodeb o'r Manteision a'r Anfanteision ........ 11
  - Ffactorau Llwyddiant Hanfodol ........ 12
  - Risgiau ........ 13
  - Adnoddau Addysg/Goblygiadau Ariannol ........ 13
  - Goblygiadau Corff Llywodraethu ........ 16
  - Goblygiadau Staffio ........ 16
  - Goblygiadau Disgyblion a Rhieni ........ 16
  - Goblygiadau Trafnidiaeth ........ 17
  - Cynaliadwyedd ........ 17
  - Effeithiau Amgylcheddol ........ 17

Ansawdd Adeiladau ... 17
Cefnogi'r Gymuned ... 17
Effaith ar Ysgolion Eraill/Lleoedd Ysgolion ... 17
Ansawdd a Safonau mewn Addysg-Trosolwg ... 17
Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte ... 18
Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth ... 19
Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre ... 19
Effaith y Cynnig ar Ansawdd a Safon Addysg ... 19
Asesiadau Effaith ... 19
Asesiad Effaith Integredig ... 20
Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ... 20
Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ... 20
Asesiad o'r Effaith ar Drafnidiaeth ... 21
Y Broses Ymgynghori ... 21
Pwy fydd yn rhan o'r ymgynghoriad? ... 21
Amserlen o Ddyddiadau Allweddol ... 22
Y Cyfnod Ymgynghori ... 22
Ystyried eich Barn ... 23
Cyfarfodydd Ymgynghori ... 23
Ymgynghori â Disgyblion ... 23
Adroddiad yr Ymgynghoriad ... 23
Cyhoeddi Hysbysiadau Statudol ... 24
Cyfnod Gwrthwynebu Statudol ... 24
Penderfynu ar y Cynnig ... 24
Hysbysiad o'r Penderfyniad ... 25
Atodiad A-Data Ysgolion Cyfagos ... 26
Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre ... 27
Ysgol Acrefair ... 28
Ysgol Min y Ddôl ... 29
Ysgol Cefn Mawr ... 30
Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth ... 31

# Rhan A-Pam mae newid yn cael ei ystyried?

## Rhagair gan y Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyfrifoldeb statudol i hyrwyddo darpariaeth addysg effeithiol o ansawdd uchel. Rhan o'r cyfrifoldeb hwn yw adolygu'r nifer a'r math o leoedd ysgol er mwyn sicrhau bod lleoedd addas a digonol ar gael mewn ysgolion a gwella cyfleoedd i ddysgu a darparu addysg yn effeithlon.

Rydym yn rhoi dysgwyr wrth wraidd popeth a wnawn ac rydym yn gwahodd syniadau gan y gymuned wrth i ni ddatblygu cynigion penodol. Trwy wrando ar farn y rhai yr effeithir arnynt gan unrhyw newidiadau, gallwn wneud penderfyniadau gwell a gallwn weithio gyda'n gilydd i gyflawni'r newid sydd ei angen i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn Wrecsam yn cyflawni'r gorau y gallant.

Ein gweledigaeth:

*Rydym am i bob dysgwr fod a dod y gorau y gallant fod a meddu ar y dyheadau uchel, yr hyder, y cyfleoedd a'r cymwysterau i gyflawni eu potensial.*

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod angen i ni sicrhau bod darpariaeth addysg yn adlewyrchu patrymau poblogaeth sy'n newid, a bod ein hysgolion wedi'u lleoli yn y lleoliad cywir gydag adeiladau a chyfleusterau addas i wasanaethu anghenion dysgwyr. Wrth ystyried faint o leoedd sydd eu hangen mewn ysgolion, rhoddir ystyriaeth i nifer y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion, tueddiadau cynyddol a gostyngol mewn niferoedd derbyn a'r galw rhagamcanol am leoedd i ddisgyblion mewn ysgol.

Lle mae nifer uchel o leoedd gwag mewn ysgol, mae adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd y gellid eu defnyddio'n well i wella ansawdd addysg pob dysgwr. Mae nifer uchel o leoedd gwag yn ei gwneud yn anodd cynllunio a rheoli'r ysgol, gan greu problemau wrth reoli maint dosbarthiadau babanod a gadael rhannau o'r ysgol heb eu defnyddio o bosibl ac nid yw hyn yn gost-effeithiol.

Nid yw'r cynnig i ymgynghori ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy wedi'i gymryd yn ysgafn, fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte yn effeithio ar gynaliadwyedd addysgol ac ariannol yr ysgol ac mae angen mynd i'r afael â hyn.

Bydd yr ymgynghoriad yn dilyn canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru a bydd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Bwriad y wybodaeth yn y ddogfen hon yw egluro cynigion ar gyfer yr ysgol dan sylw a chefnogi'r broses ymgynghori.

**Karen Evans**

**Prif Swyddog, Addysg ac Ymyrraeth Gynnar**

# Y Cynnig

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig canlynol:

**Ymgynghori ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy**

Ar ôl ymgynghori ar y newid arfaethedig, bydd y Cyngor yn ystyried a ddylid gweithredu'r cynnig.

Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau y bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn eu hystyried wrth benderfynu sut i fwrw ymlaen.

Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau **ddydd Mawrth 23 Medi 2025** a bydd yn dod i ben **ddydd Gwener 7 Tachwedd 2025.**

## Pam mae angen newid?

Mae data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2025 yn dangos bod 22.1% o leoedd yn ysgolion cynradd Wrecsam yn wag ar hyn o bryd a bod 13.0% o leoedd yn ysgolion uwchradd Wrecsam yn wag. O ystyried rhagamcanion y bydd nifer y disgyblion ledled Wrecsam yn gostwng yn gyffredinol yn y blynyddoedd i ddod, bydd cyfran y lleoedd gwag ledled y fwrdeistref sirol yn parhau i gynyddu.

## Cyd-destun Strategol

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod lleoedd addas a digonol ar gael mewn ysgolion wrth ddarparu gwasanaethau addysg effeithlon ac effeithiol i ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â materion o ran digonolrwydd lle bo hynny'n berthnasol, a allai olygu galw uchel am leoedd i ddisgyblion, neu alw isel am leoedd i ddisgyblion.

Mewn ymateb i newidiadau demograffig sy'n digwydd ar lefel leol a chenedlaethol (megis cyfraddau geni a chyfraddau poblogaeth gostyngol), mae ein ffocws ar ail-bwrpasu posibl yr ystâd addysg i gwrdd â galw newidiol ac ysgogwyr ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Yn ogystal ag ysgogwyr demograffig, ffactorau allweddol eraill i'w hystyried yw priodoldeb a lleoliad safle ysgol, costau cynnal a chadw adeiladau a chynaliadwyedd.

Mae nifer y disgyblion wedi gostwng yn gyffredinol yn ysgolion Wrecsam dros y pum mlynedd diwethaf ac mae disgwyl iddynt barhau i ostwng. O ganlyniad, bydd cyfran y lleoedd gwag ledled y sir yn parhau i gynyddu.

Yn ystod y cyfnod hyd at 2028, disgwylir i boblogaeth Wrecsam ostwng 1.5 y cant. Rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf (a gynhaliwyd yn 2011 a 2021), cynyddodd poblogaeth Wrecsam 0.2% yn unig, o ychydig dros 134,800 yn 2011 i oddeutu 135,100 yn 2021. Cynyddodd poblogaeth Wrecsam ar ganran lai na phoblogaeth gyffredinol Cymru.

## Manylion yr Ysgolion yn y Cynnig hwn

Sefydlwyd Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy ym mis Ionawr 2014. Daeth ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre, Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte ac Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth ynghyd o dan un corff llywodraethu ac un Pennaeth.

Ar hyn o bryd, mae **Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte** wedi'i chofrestru fel ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg. Fe'i lleolir ar Ffordd y Coetir, Froncysyllte yn ward Llangollen Wledig. Mae gan yr ysgol Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) o 12 disgybl, gydag ystod oedran o 3-11 oed.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Ysgol** | Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte |
| **Lleoliad yr Ysgol** | Ffordd y Coetir, Froncysyllte, LL20 7SU |
| **Ystod Oedran** | 3-11 |
| **Categori Ysgol** | Ysgol Gynradd Gymunedol |
| **Cyfrwng Iaith** | Cyfrwng Saesneg |
| **Capasiti Cyfredol** | 84 |
| **Lleoedd Gwag (Ionawr 2025)** | 73 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | B |

**Cyfanswm nifer y disgyblion ar y gofrestr yn ystod y 5 mlynedd diwethaf yn Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte (CYBLD)**

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | 26 | 58 | 69.05% |
| 2021/22 | 21 | 63 | 75.00% |
| 2022/23 | 24 | 60 | 71.43% |
| 2023/24 | 19 | 65 | 77.38% |
| 2024/25 | 11 | 73 | 86.90% |

**Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau.*

**Rhagamcanion Niferoedd Disgyblion** – Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte

Mae rhagamcanion disgyblion yn seiliedig ar wybodaeth a gedwir gan ddata ystadegol Systemau Gwybodaeth Rheoli (SGRh) ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. NID yw'r niferoedd hyn yn niferoedd gwirioneddol y disgyblion a fydd ar y gofrestr yn ystod y blynyddoedd academaidd penodedig. Bydd y niferoedd gwirioneddol ar y gofrestr yn cael eu diweddaru bob blwyddyn yn dilyn casglu data cyfrifiad ysgolion blynyddol lefel disgyblion ym mis Ionawr (PLASC).

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2025/26 | 6 | 78 | 92.86% |
| 2026/27 | 5 | 79 | 94.05% |
| 2027/28 | 1 | 83 | 98.81% |
| 2028/29 | 1 | 83 | 98.81% |
| 2029/30 | 0 | 84 | 100.00% |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau.*

Ar hyn o bryd, mae **Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth** wedi'i chofrestru fel ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg. Fe'i lleolir ar Ffordd y Garth, Garth, Trefor LL20 7UY yn ward Llangollen Wledig. Mae gan yr ysgol Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) o 15 disgybl, gydag ystod oedran o 3-11 oed.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Ysgol** | Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth |
| **Lleoliad yr Ysgol** | Ffordd y Garth, Garth, Trefor, LL20 7UY |
| **Ystod Oedran** | 3-11 |
| **Categori Ysgol** | Ysgol Gynradd Gymunedol |
| **Cyfrwng Iaith** | Cyfrwng Saesneg |
| **Capasiti Cyfredol** | 105 |
| **Lleoedd Gwag (Ionawr 2025)** | 60 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | B |

**Cyfanswm nifer y disgyblion ar y gofrestr yn ystod y 5 mlynedd diwethaf yn Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth (Data CYBLD)**

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | 46 | 59 | 56.19% |
| 2021/22 | 55 | 50 | 47.62% |
| 2022/23 | 51 | 54 | 51.43% |
| 2023/24 | 43 | 62 | 59.05% |
| 2024/25 | 45 | 60 | 57.14% |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau.*

**Rhagamcanion Niferoedd Disgyblion – Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth**

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2025/26 | 49 | 56 | 53.33% |
| 2026/27 | 51 | 54 | 51.43% |
| 2027/28 | 46 | 59 | 56.19% |
| 2028/29 | 45 | 60 | 57.14% |
| 2029/30 | 42 | 63 | 60.00% |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau.*

Ar hyn o bryd, mae **Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre** wedi'i chofrestru fel ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg. Mae wedi'i lleoli yn Pentre, Y Waun, LL14 5AW yn ward Gogledd y Waun.
Mae gan yr ysgol Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) o 10 disgybl, gydag ystod oedran o 3-11 oed.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Ysgol** | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre |
| **Lleoliad yr Ysgol** | Pentre, Y Waun, LL14 5AW |
| **Ystod Oedran** | 3-11 |
| **Categori Ysgol** | Ysgol Wirfoddol a Reolir |
| **Cyfrwng Iaith** | Cyfrwng Saesneg |
| **Capasiti Cyfredol** | 70 |
| **Lleoedd Gwag (Ionawr 2025)** | 28 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | B |

**Cyfanswm nifer y disgyblion ar y gofrestr yn ystod y 5 mlynedd diwethaf yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre (Data CYBLD)**

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | 54 | 16 | 22.86% |
| 2021/22 | 61 | 9 | 12.86% |
| 2022/23 | 51 | 19 | 27.14% |
| 2023/24 | 44 | 26 | 37.14% |
| 2024/25 | 42 | 28 | 40.00% |

**Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau.*

**Rhagamcanion Niferoedd Disgyblion – Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre**

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2025/26 | 39 | 31 | 44.29% |
| 2026/27 | 33 | 37 | 52.86% |
| 2027/28 | 26 | 44 | 62.86% |
| 2028/29 | 26 | 44 | 62.86% |
| 2029/30 | 26 | 44 | 62.86% |

**Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau.*

## Beth fyddai'r cynnig hwn yn ei olygu?

Mae'r ffactorau sydd wedi'u hystyried gan y Cyngor wrth benderfynu ymgynghori ar y cynnig hwn yn cynnwys:

- Sicrhau cynaliadwyedd ysgolion yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy yn y dyfodol.
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgolion eraill a fyddai wedi'u paratoi'n well i fodloni'r Cwricwlwm i Gymru newydd.
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgolion eraill a fyddai'n darparu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol ac allgyrsiol.
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgol gyda mwy o gyd-ddisgyblion, fel y gellir addysgu disgyblion mewn dosbarthiadau o grŵp oedran tebyg gan ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cymorth cyfoedion.
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgolion ag adeiladau o ansawdd gwell.
- Sicrhau effeithlonrwydd cynllunio a rheoli adnoddau.
- Lleihau nifer cyffredinol y Cyngor o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd.
- Mynd i'r afael â'r mater o nifer disgyblion isel ar y gofrestr a'r nifer a ragamcenir.
- Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i fonitro'r galw am leoedd mewn ysgolion a sicrhau hyfywedd yr ystâd ysgolion.
- Gwireddu arbediad ariannol a gronnir i gyllideb Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy.

## Yr Opsiynau a Ystyriwyd

- **Opsiwn 1**–Parhau â'r Sefyllfa Bresennol. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai'r 3 ysgol yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy yn parhau i weithredu fel y maent ar hyn o bryd.

- **Opsiwn 2**–Cau Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte yn cau ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle mewn ysgol arall.

- **Opsiwn 3**–Cau pob un o'r 3 ysgol yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy i greu un ysgol gyfunol ar un safle. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys cau Froncysyllte ar unwaith cyn yr ailstrwythuro ehangach. Mae Opsiwn 3 wedi'i ddiystyru oherwydd nad oes safle addas arall ar gael. Felly, ni fydd ymgynghoriad ar Opsiwn 3.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

**Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.**

Rhagwelir y bydd lefel y lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte yn parhau. Nid oes data ar gael i awgrymu y bydd nifer y disgyblion sy'n gwneud cais i fynychu'r ysgol yn uwch na 84 mewn blynyddoedd i ddod.

Trwy gyflwyno'r cynnig hwn, mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r galw gostyngol am leoedd ysgol yn Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte.

**Opsiynau arall i gau sydd wedi'u hystyried:**

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried p'un a fyddai'n ymarferol ac yn economaidd cyd-leoli gwasanaethau lleol yn Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte i wrthbwyso costau cynnal a chadw'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn hyfyw oherwydd maint a phriodoldeb safle'r ysgol.

Mae opsiwn arall ychwanegol yn lle cau hefyd yn cael ei gynnig fel opsiwn i'w ystyried (Opsiwn 1-Parhau â'r Sefyllfa Bresennol). Fodd bynnag, nid yw parhau â'r sefyllfa bresennol yn cael ei ystyried er budd gorau'r Ffederasiwn yn y tymor hir.

Mae **Opsiwn 1** wedi ei ddiystyru oherwydd:

- Niferoedd gostyngol y disgyblion sy'n gwneud cais am leoedd yn yr ysgol dros gyfnod parhaus.
- Mae rhagolygon yn awgrymu y bydd y duedd hon yn parhau.
- Mae'r gostyngiad yn niferoedd y disgyblion wedi effeithio ar gynaliadwyedd addysgol ac ariannol yr ysgol ac mae angen mynd i'r afael â hyn.

## Rhan B-Y Cynnig-Yr Opsiwn a Ffefrir

### Rhesymeg

Y prif heriau i'r Cyngor a'r Ffederasiwn yw:

### Niferoedd Disgyblion Isel

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio 'ysgol fach' fel ysgol sydd â llai na 91 o ddisgyblion. Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte yn sylweddol is na hyn, a rhagwelir y bydd yn parhau felly am y dyfodol rhagweladwy. Mae nifer isel o ddisgyblion yn yr ysgol wedi arwain at nifer uchel o leoedd gwag yn yr ysgol. Mae rhagamcanion yn dangos na fydd unrhyw ddisgyblion yn mynychu Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte o fewn y 5 mlynedd nesaf; gallai hyn fod yn gynt pe bai rhieni'n dewis symud eu plant yn gynharach.

### Cyfraddau Geni a Chyfraddau Poblogaeth yn Gostwng

Mae gostyngiad cenedlaethol a lleol mewn cyfraddau geni a chyfraddau poblogaeth yn effeithio ar nifer y disgyblion sydd angen lleoedd mewn ysgolion.

### Dosbarthiadau Oedran Cyfunol

Mae niferoedd disgyblion isel yn yr ysgol yn golygu bod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau Cyfnod Allweddol cyfan. Pan fydd niferoedd disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn fach, mae'n anoddach sicrhau bod pob disgybl yn cael ei herio'n briodol yn eu hamgylchedd dysgu.

### Cyfleoedd Dysgu a Rhyngweithio â Chyfoedion

Mae sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad i ddosbarthiadau o grŵp oedran tebyg yn darparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cymorth cyfoedion a phrofiadau addysgu a dysgu gwell.

### Cyllideb Uchel Fesul Disgybl

Dyraniad aneffeithlon o arian i ddisgyblion. Gall cadw ysgolion ar agor gyda nifer uchel o leoedd gwag olygu gwario mwy fesul disgybl nag sydd ei angen.

### Adeiladau sydd wedi'u Tanddefnyddio

Mae adeiladau sydd â mannau heb eu defnyddio (e.e. ystafelloedd dosbarth gwag) yn ddrud i'w cynnal ac nid ydynt yn gost-effeithiol. Gall cyflwr adeiladau sydd wedi'u tanddefnyddio ddirywio, gan gynyddu costau cynnal a chadw.

### Effeithiau Amgylcheddol

Gall fod effeithiau amgylcheddol o ran defnydd ynni aneffeithlon, cynhyrchu gwastraff a defnydd tir anghynaladwy.

## Rhan C-Effaith y Cynnig-Yr Opsiwn a Ffefrir

### Beth yw manteision posibl yr opsiwn a ffefrir?

Byddai’r newidiadau arfaethedig yn:

- Lleihau nifer cyffredinol y Cyngor o leoedd gwag yn ysgolion cynradd Wrecsam.
- Rhoi ateb priodol i ateb y galw lleol am leoedd ysgol yn yr ardaloedd lle mae'r ysgolion wedi'u lleoli.
- Cyfyngu ar yr effaith ar bob ysgol, yn lleol ac ar draws y sir.
- Cefnogi twf cynaliadwy addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â dyheadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a Cymraeg 2050.
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgolion eraill a fyddai wedi’u paratoi’n well i fodloni'r Cwricwlwm i Gymru newydd.
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgolion eraill a fyddai'n darparu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol ac allgyrsiol
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgol gyda mwy o gyd-ddisgyblion, fel y gellir addysgu disgyblion mewn dosbarth o grŵp oedran tebyg.
- Galluogi disgyblion i gael mynediad at gyfleoedd ychwanegol ar gyfer cymorth cyfoedion.
- Darparu cysondeb cwricwlwm, dulliau arwain cyfarwydd a pharhad gofal i ddisgyblion lleol.
- Bydd gwella safonau addysg o fudd i holl ddisgyblion yr ardal.

### Beth yw anfanteision posibl yr opsiwn a ffefrir?

- Gallai nifer is o ddisgyblion arwain at ansicrwydd swyddi i athrawon a staff.
- Efallai na fydd rhieni/gofalwyr yn gallu cael mynediad i'w hysgol o'u dewis.
- Gallai fod taith hirach i ddisgyblion y mae Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte yr ysgol agosaf iddynt ar hyn o bryd.
- Gallai fod costau teithio ychwanegol i rieni.
- Byddai'n rhaid i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Froncysyllte ar hyn o bryd symud i ysgol arall.
- Gallai fod yn gyfnod cythryblus i'r gymuned.

### Crynodeb o'r Manteision a'r Anfanteision

Yng ngoleuni'r manteision a'r anfanteision uchod, barn yr Awdurdod Lleol yw bod manteision tymor hwy'r cynnig a amlinellir uchod yn drech nag unrhyw anfanteision.

Bydd unrhyw risgiau posibl yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n ofalus lle bynnag y bo modd.

## Ffactorau Llwyddiant Hanfodol

Mae'r cynnig yn bodloni'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol (FfLlH) canlynol yn Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Wrecsam:

**FfLlH 1**-Yn unol â'n Fframwaith Trefniadaeth Ysgolion, mae prosiectau/cynigion yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu defnydd effeithlon ac effeithiol o'r ystâd ysgolion ledled y sir.

**FfLlH 2**-Mae prosiectau/cynigion yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â demograffeg Wrecsam.

**FfLlH 3**-Mae prosiectau/cynigion yn cefnogi'r cynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac yn ehangu cyfleoedd mynediad drwy sicrhau gwell dosbarthiad daearyddol.

**FfLlH 4**-Mae prosiectau/cynigion yn cefnogi'r cynnydd yn y galw am ddarpariaeth ffydd ac yn sicrhau digonolrwydd lleoedd trwy wella dosbarthiad daearyddol lleoedd.

**FfLlH 5**-Mae prosiectau/cynigion yn cefnogi ein hymgyrch i wella perfformiad ym mhob cyfnod allweddol.

**FfLlH 6**-Mae prosiectau/cynigion yn harneisio'r defnydd o dechnolegau TGCh newydd i wella'r seilwaith ar draws yr ystâd ysgolion. Dylid defnyddio technoleg er mwyn hyrwyddo cydweithredu rhwng ysgolion a gwella mynediad i ddisgyblion at ddysgu, yn yr ysgol a thrwy amgylcheddau dysgu rhithwir.

**FfLlH 7**-Mae prosiectau/cynigion yn mynd i'r afael â chyflwr ein hystâd ysgolion. Bydd yr ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw yn cael ei leihau'n sylweddol a bydd nifer yr adeiladau sy'n cael eu graddio fel Cyflwr C yn cael ei leihau 25% yn ystod Band B.

**FfLlH 8**-Dylai prosiectau/cynigion ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer datblygu yn y dyfodol mewn ardaloedd lle rhagwelir y bydd y galw yn parhau i godi.

**FfLlH 9**-Bydd cyfleoedd i wneud y defnydd mwyaf o'r ystâd bresennol yn cael eu gwireddu. Lle mae'n effeithlon gwneud hynny, deuir o hyd i ddefnyddiau eraill ar gyfer lleoedd gwag sy'n cefnogi ein nodau datganedig ar gyfer y rhaglen.

**FfLlH 10**-Mae cynigion prosiectau yn fforddiadwy i'r Cyngor yng nghyd-destun arian cyfatebol.

**FfLlH 11**-Bydd prosiectau/cynigion yn ystyried cyfleusterau sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac awydd rhieni am ofal cofleidiol ochr yn ochr â'r cynnig gofal plant 30 awr.

**FfLlH 12**-Mae prosiectau/cynigion yn cyfrannu at darged lleihau carbon y Cyngor i leihau ein hallyriadau carbon 70% erbyn 2020 o'i gymharu â llinell sylfaen 2005/2006.

## Risgiau
Pan fo gostyngiad cyson yn nifer y disgyblion sy'n cael eu cofrestru dros gyfnod estynedig, mae perygl y gallai'r tebygolrwydd y bydd yr ysgol yn dod yn anhyfyw gynyddu os nad yw'r Cyngor yn gweithredu, yn enwedig yng ngoleuni niferoedd disgyblion a ragwelir. Bydd yr holl risgiau posibl yn cael eu monitro fel rhan o Strategaeth Rheoli Risg Ysgolion Cyngor Sir Wrecsam. Drwy fonitro a sicrhau dull cadarn o ymdrin â'r risgiau, gellir lleihau'r effaith ar ddisgyblion/rhieni/gofalwyr/athrawon a staff cymorth.

## Adnoddau Addysg/Goblygiadau Ariannol
Mae Ysgolion Wrecsam yn cael eu cyllid wedi'i ddyrannu'n flynyddol trwy fformiwla dyrannu adnoddau cymeradwy. Mae'r rhan fwyaf o'r fformiwla yn ymwneud â nifer y disgyblion ar y gofrestr ym mhob ysgol. Yn ogystal â'r rhan "sy'n cael ei yrru gan ddisgyblion" o'r fformiwla, mae'r fformiwla hefyd yn cynnwys dyraniadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dyraniadau sylfaenol, ffactorau o ran adeiladau fel arwynebedd y llawr a hefyd ffactorau o ran diogelu ysgolion bach.

**Y costau uned (fesul disgybl) ar gyfer pob un o'r safleoedd yw:**

| Enw'r Ysgol | UBOD | Cyfanswm y Costau Sefydlog | Fesul Uned |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre | £3,521 | £128,603 | £5,568 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte | £3,937 | £160,827 | £17,217 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth | £3,497 | £115,040 | £5,005 |

**Y gost gyfartalog ar gyfer Ysgol Gynradd yn Wrecsam yn 2025-2026 yw:**

| | |
|---|---|
| **UBOD** | £4,176 |
| **Fesul Uned (gan gynnwys costau sefydlog)** | £5,315 |

**Cyllidebau dirprwyedig refeniw ar gyfer y tri safle yn y Ffederasiwn yn 2025-2026 yw:**

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre | £283,523 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte | £204,130 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth | £289,883 |
| **Cyfanswm y Gyllideb Ddirprwyedig** | **£777,536** |

**Diffyg a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer 2025-2026 (trefniadau cyfredol)**

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre | £64,614 (balans mewn diffyg) |

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte | £38,664 (balans dros ben) |
| Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth | £36,407 (balans mewn diffyg) |
| **Balans Cyfredol y Ffederasiwn** | **£62,357 (diffyg)** |

**Opsiwn 1-Sefyllfa bresennol-mae'r tair ysgol yn aros fel y maent ar hyn o bryd**

Mae’r diffyg yn y gyllideb yn parhau.

**Opsiwn 2-Cau Ysgol Gynradd Sirol Froncysyllte ym mis Medi 2026**

Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr athrawon a'r cynorthwywyr addysgu sydd eu hangen.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27, byddai hyn yn arbed o leiaf £57,269, gydag arbedion posibl ychwanegol o £2,667 os caiff staff eu hadleoli yn ystod y cyfnod rhybudd i gyflenwi yn Garth a Pentre. Mewn blwyddyn ariannol lawn, byddai'r arbediad yn cyfateb i £204,130.

Byddai cau Froncysyllte yn cael goblygiadau ariannol i Garth a Pentre, gan y byddai angen iddynt dalu cost lawn pennaeth, sy'n cael ei rannu ar hyn o bryd (cyfanswm y gost ychwanegol fyddai £13,524). Fodd bynnag, gellid lliniaru'r effaith hon gan y gyllideb ychwanegol a ddyrennir oherwydd bod disgyblion yn symud i'r ysgolion hyn (cyfanswm y gyllideb ychwanegol fyddai £20,880 ar gyfer 5 disgybl).

**Opsiwn 1:  Sefyllfa bresennol-mae'r tair ysgol yn aros fel y maent ar hyn o bryd**

Pe bai'r opsiwn hwn yn cael ei fabwysiadu, byddai'r tri safle yn cael eu cyllideb ddirprwyedig wedi’i dyrannu ar yr un sail fformiwla ag ar hyn o bryd.

**Y cyllidebau dirprwyedig ar gyfer pob un o'r safleoedd ar gyfer 2025-26 yw:**

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre | £283,523 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte | £204,130 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth | £289,883 |

**Mae'r cyllidebau hyn yn cynnwys elfen o ddiogelu ysgolion bach:**

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre | £24,888 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte | £76,218 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth | £15,555 |

**Gwariant a Gynlluniwyd ac Incwm** Net yr Ysgolion ar gyfer 2025-26*:

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre | £65,034 wedi'i orwario |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte | £1,053 wedi'i danwario |
| Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth | £46,906 wedi'i orwario |

**Mae'r ffigurau hyn yn eithrio unrhyw falansau a gariwyd ymlaen o 2024-25.*

**Mae'r balansau ar gyfer 2024-25 yn dod i gyfanswm o £48,730 (gwarged)**

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre | Gwarged o £420 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte | Gwarged o £37,811 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth | Gwarged o £10,499 |

**Felly, byddai'r balansau a ragwelir ar gyfer 2025-26 yn dod i gyfanswm o £62,157 (diffyg)**

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre | Diffyg o £64,614 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte | Gwarged o £38,864 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth | Diffyg o £36,407 |

**Opsiwn 2: Cau Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte ym mis Medi 2026**

Mae disgwyl i nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte ostwng ymhellach gydag amcangyfrif y bydd 5 disgybl yn weddill ym mis Medi 2025.

**Byddai cau Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte yn arwain at arbediad yn y gyllideb ar gyfer 2026/27**

| | | |
|---|---|---|
| (£204,130) | Dyraniad Cyllideb CYU | 2026-2027 |
| £149,762 | Costau staff* | Ebrill i Rhagfyr 2026 |
| £926 | Costau gweithwyr eraill | Ebrill i Awst 2026 |
| £6,863 | Safleoedd | Ebrill i Awst 2026 |
| £21 | Trafnidiaeth | Ebrill i Awst 2026 |
| £4,354 | Nwyddau | Ebrill i Awst 2026 |
| £5,792 | Asiantaethau | Ebrill i Awst 2026 |
| £1,061 | Taliad HWB | Ebrill i Awst 2026 |
| (£22,278) | Grantiau | |
| (£57,629) | Incwm/gwariant net-tanwariant | 2026-2027 |

** Cost staff rhwng Ebrill a Rhagfyr 2026 (angen 12 wythnos o rybudd)*

**Arbedion Posibl Ychwanegol**

Yr arbedion cost cyflenwi yn Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth ac Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre pe bai staff yn cael eu hadleoli fyddai £2,667.

O fis Medi i fis Rhagfyr 2026 (cyllideb o £8,000 y flwyddyn x 4/12)

**Byddai cau Ysgol Gynradd Froncysyllte yn arwain at arbediad cyllideb blwyddyn lawn ar gyfer 2027/28:**

| | |
|---|---|
| **Arbediad Cyllideb CYU** | £204,130 |
| Byddai hyn yn cynyddu balans y CYU wrth gefn ac o fudd i ysgolion Wrecsam. | |
| **Costau Ychwanegol** | £13,534 |
| Byddai angen i gostau'r Pennaeth, y mae Froncysyllte yn talu'n rhannol ar hyn o bryd, gael eu talu gan Pentre a Garth yn y dyfodol.<br><br>**Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre**-£6,767<br>**Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth**-£6,767 | |
| **Incwm Ychwanegol** | £20,880 |
| Cyfranddaliadau ychwanegol o'r Gyllideb CYU pe bai'r disgyblion yn symud i Pentre neu Garth<br>(5 disgybl x £4,176) | |

*Nodwch: Os na fydd staff yn cael eu hadleoli, efallai y bydd costau gadael nad ydynt wedi'u cofnodi yn y dadansoddiad hwn*

| Rolau Swyddi | Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI) | 2026/27 |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 3.02 | £166,181 |

## Goblygiadau Corff Llywodraethu

Os bydd un o'r ysgolion yn gadael y Ffederasiwn, byddai angen sefydlu corff llywodraethu newydd. Byddai angen rhoi rhybudd, a hysbysu'r rhanddeiliaid. Byddai angen i'r Awdurdod Lleol gyhoeddi Offeryn Llywodraethu newydd, yn nodi'r Ffederasiwn newydd a'i gyfansoddiad. Byddai angen cyflwyno'r wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru hefyd.

## Goblygiadau Staffio

Bydd y cynnig hwn yn cael effaith ar strwythur staffio'r ysgol. Bydd proses ymgynghori â staff ar wahân yn cael ei chynnal gyda gweithwyr a chynrychiolwyr undebau llafur mewn perthynas ag unrhyw ailstrwythuro staff sy'n deillio o hynny. Bydd barn staff yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses.

## Goblygiadau Disgyblion a Rhieni

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd ymgynghoriad sy'n cynnig cau ysgol yn gythryblus heb os i ddisgyblion a'u teuluoedd. Mae digon o leoedd yn y ddwy ysgol arall yn y Ffederasiwn y gallai disgyblion symud iddynt. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb cwricwlwm, dulliau arwain cyfarwydd a pharhad gofal bugeiliol. Byddai trefniadau pontio yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau bod mesurau lliniaru ar waith ar gyfer unrhyw aflonyddwch posibl (megis ymweliadau / gweithgareddau ar y cyd yn yr ysgol newydd cyn symud) fel y gall disgyblion addasu'n haws i arferion newydd neu

newidiadau posibl mewn athrawon a grwpiau cyfoedion. Ni fyddai'r trefniadau derbyn ar gyfer Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy yn newid.

### Goblygiadau Trafnidiaeth

Dylid lliniaru unrhyw broblemau o ran trafnidiaeth a pharcio yn ardal gyfagos yr ysgol, gan sicrhau effaith gadarnhaol. Felly, ystyrir bod y cynnig yn ymarferol. Cyfeiriwch at yr Asesiad o’r Effaith ar Drafnidiaeth am ragor o fanylion.

### Cynaliadwyedd

Byddai'r cynnig hwn yn effeithio ar sawl elfen mewn perthynas â chynaliadwyedd, er enghraifft, cynaliadwyedd amgylcheddol, cynaliadwyedd addysgol a chynaliadwyedd ariannol. Mae canoli adnoddau mewn llai o adeiladau yn golygu y gellir gwario cyfran uwch o'r gyllideb ar addysgu a dysgu yn hytrach na seilwaith. Byddai buddsoddiad wedi’i ganoli yn yr ysgolion sy'n weddill yn sicrhau mwy o hyfywedd ariannol a’r gallu i wrthsefyll amrywiadau posibl yn nifer y disgyblion. Yn ogystal, byddai costau cyffredinol llai (cynnal a chadw adeiladau, cyfleustodau, yswiriant), defnydd mwy effeithlon o athrawon a staff cymorth, cynnig pwnc ehangach yn yr ysgolion sy'n weddill a gwell defnydd o offer ac adnoddau.

### Effeithiau Amgylcheddol

Byddai'r cynnig hwn yn darparu manteision i'r amgylchedd o ran lleihau ôl troed carbon yn sgil llai o wresogi, goleuadau a chynnal a chadw. Mae llai o adeiladau gweithredol yn darparu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol sy'n deillio o ostyngiad yn y defnydd o ynni, yn y gwastraff a gynhyrchir ac mewn defnydd tir anghynaladwy.

### Ansawdd Adeiladau

Mae ansawdd adeiladau pob un o'r 3 ysgol wedi'i asesu fel categori cyflwr ysgol "B". Diffinnir categori cyflwr ysgol "B" gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn: *"Cyflwr da, dim ond dirywiad bach a mân waith sydd ei angen"*. Felly, nid oes unrhyw ddiffygion yn ansawdd yr adeiladau a gynigir yn y safleoedd eraill.

### Cefnogi'r Gymuned

Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r gymuned i fynd i'r afael â phryderon ac fe ddarperir cyfathrebu rheolaidd. Bydd sesiynau ymgynghori wyneb yn wyneb a rhithwir yn cael eu cynnig, gan roi'r cyfle i aelodau'r gymuned ofyn cwestiynau a chael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn anelu at reoli unrhyw ansicrwydd ynghylch y cynnig a'r penderfyniadau cysylltiedig a wneir gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor. Cyfeiriwch at yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned am ragor o fanylion.

### Effaith ar Ysgolion Eraill/Lleoedd Ysgolion

Mae Atodiad A yn dangos yr effaith bosibl ar ysgolion cyfagos, sy'n debygol o fod yn isel. Ni ddylai'r cynnig effeithio'n andwyol ar ysgolion eraill yn yr ardal gyfagos (h.y. o fewn pellter cerdded dwy filltir i'r ysgolion) gan fod digon o leoedd mewn nifer o'r ysgolion cyfagos yn yr ardal.

## Ansawdd a Safonau mewn Addysg-Trosolwg

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag Estyn i fonitro perfformiad ysgolion a chefnogi gwelliant mewn ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc Wrecsam.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gorff y goron, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar y Senedd ond mae'n cael ei arian gan Lywodraeth Cymru dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darpariaeth mewn ysgolion a darparwyr a hyfforddiant yng Nghymru.

Fe wnaeth ymweliad monitro diwethaf Estyn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ym mis Gorffennaf 2023 dynnu sylw at y canlynol:

- *Mae swyddogion wedi sefydlu sawl dull defnyddiol sy'n cefnogi arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau i sicrhau gwelliant.*
- *Bellach, mae gan yr awdurdod lleol afael cadarnach ar gryfderau a gwendidau cyffredinol ei ysgolion, yn enwedig o ran arweinyddiaeth a darpariaeth.*
- *Mae swyddogion ar draws y gwasanaeth yn angerddol ac wedi ymrwymo i gyflawni gwelliannau parhaus yn y ddarpariaeth a'r canlyniadau i ddisgyblion.*
- *Mae swyddogion yn gweithio'n dda gydag ysgolion ar gyfer datblygu dulliau gweithredu ysgol gyfan o ran iechyd a lles emosiynol i gryfhau trefniadau ar gyfer disgyblion ymhellach.*
- *Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu dull defnyddiol, systematig o werthuso gwasanaethau addysg a chynllunio ar gyfer gwella. Mae cynlluniau i wella gwasanaethau addysg yn glir ar lefelau strategol a gweithredol, ac mae camau gweithredu wedi'u targedu'n briodol at feysydd sydd angen eu gwella fwyaf.*

Wrth gynnig newidiadau o'r math hwn i ysgol, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyfeirio at yr adroddiad Estyn diweddaraf ac unrhyw dystiolaeth arall sy'n deillio o fonitro perfformiad.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ddangos effaith debygol y cynigion ar ansawdd:

- Safonau/Dysgu
- Lles ac Agweddau at Ddysgu
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal, Cymorth ac Arweiniad
- Arwain a Rheoli

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgol er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Yn dilyn arolwg, mae Estyn yn cyhoeddi adroddiad ac yn darparu argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella.

### Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte

Cafodd yr arolwg Estyn diwethaf yn Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte ei gynnal ym mis Gorffennaf 2022 yn ogystal ag ymweliad interim ym mis Chwefror 2025.

I gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg a'r ymweliad interim, dilynwch y dolenni isod i wefan Estyn:

Adroddiad Arolwg Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte 2022

Llythyr Ymweliad Interim Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte 2025

**Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth**
Cafodd yr arolwg Estyn diwethaf yn Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth ei gynnal ym mis Gorffennaf 2022 yn ogystal ag ymweliad interim ym mis Chwefror 2025.

I gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg a'r ymweliad interim, dilynwch y dolenni isod i wefan Estyn:

Adroddiad Arolwg Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth 2022

Llythyr Ymweliad Interim Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth 2025

**Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre**
Cafodd yr arolwg Estyn diwethaf yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre ei gynnal ym mis Gorffennaf 2022 yn ogystal ag ymweliad interim ym mis Chwefror 2025.

I gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg a'r ymweliad interim, dilynwch y dolenni isod i wefan Estyn:

Adroddiad Arolwg Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre 2022

Llythyr Ymweliad Interim Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre 2025

Mae dolenni hefyd wedi'u darparu i'r adroddiadau arolwg Estyn ar gyfer ysgolion eraill o fewn 2 filltir ar droed o Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte:

| **Enw'r Ysgol** | **Dolen i Adroddiad Estyn** |
|---|---|
| Ysgol Acrefair | Adroddiad Arolwg Ysgol Acrefair 2018 |
| Ysgol Min y Ddôl | Adroddiad Arolwg Ysgol Min y Ddôl 2022 |
| Ysgol Cefn Mawr | Adroddiad Arolwg Ysgol Cefn Mawr 2024 |

**Effaith y Cynnig ar Ansawdd a Safon Addysg**
Byddai disgyblion yn gallu mynychu ysgol arall a allai fod yn un o'r ysgolion sydd eisoes yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy, gan arwain at gysondeb cwricwlwm, dulliau arwain cyfarwydd a pharhad gofal bugeiliol. Byddai disgyblion yn cael eu symud i ysgol gyda mwy o gyd-ddisgyblion lle byddent yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda chyfoedion o grŵp oedran tebyg. Gallai hyn wella gweithio ar y cyd, cael effaith gadarnhaol ar les ac agweddau at ddysgu a chynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio â chyfoedion a chymdeithasol mewn dosbarthiadau unigol ac ar draws yr ysgol gyfan. Mae addysgu a dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad, ehangder a chydbwysedd y cwricwlwm a sgiliau yn debygol o wella o ganlyniad i hynny.

Mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth, byddai'r cynnig, pe bai'n cael ei weithredu, yn golygu y byddai'r Pennaeth yn gyfrifol am 2 ysgol yn y Ffederasiwn yn hytrach na 3. Byddai hyn yn galluogi'r Pennaeth i gael mwy o allu i ganolbwyntio ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgolion sy'n weddill.

## Asesiadau Effaith

Cynhaliwyd yr asesiadau effaith cychwynnol canlynol fel rhan o'r cynnig hwn ac mae'r crynodebau cychwynnol isod wedi'u gwireddu.  Mae asesiadau effaith yn

ddogfennau gwaith a gellir eu diweddaru drwy gydol y broses statudol. Bydd adborth gan ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael ei ddefnyddio i lywio'r asesiadau effaith.

## Asesiad Effaith Integredig

Mae Asesiad Effaith Integredig (AEI) cychwynnol wedi'i gynnal mewn perthynas ag effeithiau posibl ar nifer o agweddau, gan gynnwys Cydraddoldeb a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae adroddiad yr asesiad effaith integredig yn cyflwyno gwybodaeth a sicrwydd ynghylch sut, wrth wneud penderfyniadau, rydym wedi ystyried ein dyletswyddau a'n hymrwymiadau mewn perthynas â deddfwriaeth, blaenoriaethau a strategaethau ynghylch y cynnig. Mae'r asesiad cychwynnol yn dangos bod mesurau lliniaru ar waith i wrthbwyso unrhyw effaith andwyol bosibl. Cyfeiriwch at yr Asesiad Effaith Integredig am ragor o fanylion.

## Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

Mae Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg cychwynnol wedi'i gynnal mewn perthynas ag effeithiau posibl ar y Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynnig hwn yn cysylltu â'r amcanion CSCA canlynol:

Amcan 1:

*Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Amcan 2:

*Mwy o blant dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Amcan 7:

*Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Bydd gwaith parhaus mewn perthynas â'n hamcanion CSCA yn lleihau ac yn lliniaru unrhyw effeithiau posibl o'r cynnig wrth i ni barhau i hyrwyddo a chodi proffil addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â dyheadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor a Cymraeg 2050. Mae'r Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg yn ceisio archwilio i ba raddau y mae'r cynnig yn cefnogi targedau'r CSCA a sut y gallai'r cynnig ehangu neu leihau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae asesiad cychwynnol wedi canfod y byddai’r cynnig hwn yn helpu i barhau i hyrwyddo a chodi proffil addysg cyfrwng Cymraeg. Nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith andwyol sylweddol o ganlyniad i'r cynnig hwn i gau ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar y Gymraeg a/neu ar addysg cyfrwng Cymraeg. Mae un ysgol cyfrwng Cymraeg o fewn 2 filltir i Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte (Ysgol Min y Ddôl). Cyfeiriwch at yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg am ragor o fanylion.

## Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned

Mae’r Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned (AEG) cychwynnol wedi nodi y bydd cymysgedd posibl o effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y gymuned. Mae'r asesiad yn tynnu sylw at y ffaith bod ysgolion yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy yn ymgysylltu â'r gymuned mewn nifer o ffyrdd. Yn gyffredinol, mae'r Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned cychwynnol yn dangos bod nifer o effeithiau niwtral ar y gymuned a nifer o effeithiau cadarnhaol ar y gymuned. Lle mae effeithiau negyddol posibl, mae

mesurau lliniaru ar waith i leihau unrhyw effeithiau gweddilliol andwyol. Cyfeiriwch at yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned am ragor o fanylion.

### Asesiad o’r Effaith ar Drafnidiaeth

Mae'r Asesiad o’r Effaith ar Drafnidiaeth cychwynnol wedi nodi y bydd cymysgedd posibl o effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y gymuned. Mae canlyniadau'r Asesiad o’r Effaith ar Drafnidiaeth yn dangos bod y cynnig yn ymarferol ac mae'n annhebygol y bydd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol sydd wedi’u nodi yn yr asesiad cychwynnol. Darperir trafnidiaeth am ddim i bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol sydd angen trafnidiaeth. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y trefniant hwn.

Ni fydd cludiant y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte ar hyn o bryd yn newid a byddant yn parhau i fod yn unol â pholisi'r Cyngor ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol. Cydnabyddir y gallai'r cynnig olygu bod rhai plant yn gorfod teithio ymhellach ac am fwy o amser os nad ydynt yn byw yn yr ardal leol. Fodd bynnag, mae'r manteision ehangach a nodwyd i ddysgwyr yn gorbwyso hyn. Yn gyffredinol, mae'r Asesiad o’r Effaith ar Drafnidiaeth cychwynnol yn dangos bod nifer o effeithiau niwtral ar drefniadau teithio a nifer o effeithiau cadarnhaol ar y trefniadau teithio. Lle mae effeithiau negyddol posibl, mae mesurau lliniaru ar waith i leihau unrhyw effeithiau gweddilliol andwyol. Cyfeiriwch at yr Asesiad o’r Effaith ar Drafnidiaeth am ragor o fanylion.

## Y Broses Ymgynghori

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi gwybodaeth y bydd angen i ymgyngoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori.  Mae'r broses hon yn dilyn canllawiau rheoleiddiol fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru.

### Pwy fydd yn rhan o’r ymgynghoriad?

Gofynnwyd i amrywiaeth o unigolion am eu barn ar y cynnig gan gynnwys:

- Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Yr Eglwys yng Nghymru a'r Esgobaethau Catholig
- Awdurdodau Lleol eraill:  Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Swydd Amwythig, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Powys, Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer
- Y Corff Llywodraethu yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy
- Holl Gyrff Llywodraethu Ysgolion Wrecsam, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion ffydd ac ysgolion arbennig.
- Holl Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Wrecsam, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion ffydd ac ysgolion arbennig.
- Rhieni/Gofalwyr (a darpar rieni/gofalwyr) Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy
- Aelodau o staff Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy

Cyngor Cymuned Llangollen Wledig / Cyngor Cymuned Tref Y Waun

- Fforwm y Gymraeg mewn Addysg, gan gynnwys Menter Iaith y Fflint a Wrecsam, RhAG a Mudiad Meithrin

- Gweinidogion Cymru ac Aelodau'r Senedd:  Lesley Griffiths AS, Ken Skates AS, Llŷr Gruffydd AS, Mark Isherwood AS, Carolyn Thomas AS, Sam Rowlands AS
- Aelodau Seneddol Lleol:  Andrew Ranger AS, Gill German AS, Becky Gittins AS
- Estyn
- Undebau llafur sy'n cynrychioli athrawon a staff yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy
- Adran Trafnidiaeth Ysgol Cyngor Wrecsam
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf lleol
- Darparwyr Meithrinfeydd Annibynnol, Grwpiau Chwarae, Gwarchodwyr Plant a Darparwyr Dechrau'n Deg lleol
- Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Partneriaeth Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr ac mae'r ymgynghoriad yn agored i bawb sy'n dymuno cymryd rhan.

### Amserlen o Ddyddiadau Allweddol

Sylwch y gallai amserlenni ymgynghori newid.  Yn yr achos hwn, byddai unrhyw newidiadau yn cael eu cyhoeddi.

| **Digwyddiad** | **Dyddiadau** |
|---|---|
| Y Cyfnod Ymgynghori<br>Yn ystod y cyfnod hwn, gallwch gyflwyno eich barn drwy:<br>• Mynychu cyfarfodydd ymgynghori wedi'u cynllunio trwy apwyntiad (cymerir nodiadau)<br>• Cwblhau’r arolwg ar-lein<br>• Ysgrifennu neu anfon e-bost at y Cyngor | 23 Medi 2025 i ddydd Gwener 7 Tachwedd 2025 |
| Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol | 20 Ionawr 2026 |
| Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi a’r Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol yn dechrau | 6 Chwefror 2026 |
| Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol yn dod i ben | 10 Mawrth 2026 |
| Bwrdd Gweithredol yn dod i Benderfyniad Terfynol ar y Cynnig | 9 Mehefin 2026 |
| Cyflwyno Hysbysiad o Benderfyniad i Ymgyngoreion | Gorffennaf 2026 |
| Gweithredu'r Cynnig | 31 Awst 2026 |

### Y Cyfnod Ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau **ddydd Mawrth 23 Medi 2025** a bydd yn dod i ben **ddydd Gwener 7 Tachwedd 2025.**

## Ystyried eich Barn

Mae sawl ffordd y gallwch gyfleu eich barn, gan gynnwys:

- Llenwi’r arolwg ar-lein trwy ymweld â Dee Valley Federation
- E-bostio eich barn i: DeeValleyConsultation@wrexham.gov.uk

Fel arall, gallwch gyflwyno eich barn yn ysgrifenedig i:  Ymgynghoriad Dyffryn Dyfrdwy, Addysg, Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8BG.

Oherwydd nifer yr ymatebion a dderbyniwn wrth ymgynghori ar opsiynau, ni fyddwn yn gallu cydnabod ymatebion ysgrifenedig nac ymrwymo i ohebiaeth â phartïon â diddordeb naill ai yn ystod neu ar ôl y cyfnod ymgynghori.

Bydd ymatebion yn cael eu dadansoddi a bydd themâu allweddol gydag enghreifftiau o sylwadau a wneir ar gael i Aelodau Etholedig at ddibenion penderfynu, a byddant hefyd yn cael eu hateb drwy gyhoeddi adroddiad ôl-ymgynghori.

Cynghorwn yn gwrtais na fydd unrhyw sylwadau yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau ar hyn o bryd.

Sylwch y gallai amserlenni ymgynghori newid.  Yn yr achos hwn, byddai unrhyw newidiadau yn cael eu cyhoeddi.

## Cyfarfodydd Ymgynghori

Gallwch hefyd fynychu sesiwn ymgynghori (dyddiadau i'w cyhoeddi ar ôl eu cadarnhau). Yn y sesiynau hyn byddwch yn gallu siarad â swyddogion o'r Cyngor a fydd ar gael i ateb eich cwestiynau.

Os hoffech fynychu sesiwn ymgynghori, cysylltwch â: DeeValleyConsultation@wrexham.gov.uk

## Ymgynghori â Disgyblion

Mae Cyngor Wrecsam wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i blant lywio penderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar eu bywydau a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Mae fersiwn atodol o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael i bob disgybl yn Wrecsam i'w galluogi i roi eu barn.  Bydd sesiynau gyda'r Cynghorau Ysgol yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Bydd y Cyngor yn ceisio barn disgyblion mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trwy arolwg ar-lein. Mae'r fersiwn i blant a phobl ifanc wedi'i hysgrifennu'n benodol i alluogi pob plentyn i ddeall ac ymgysylltu â'r broses ymgynghori ffurfiol yn well. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei chynnwys yn y ddogfen ôl-ymgynghori.

## Adroddiad yr Ymgynghoriad

O fewn 13 wythnos o ddiwedd y cyfnod ymgynghori (ac yn sicr cyn cyhoeddi'r cynigion), bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad yr ymgynghoriad a fydd yn:

- Crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion.
- Ymateb i'r rhain drwy roi esboniad, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau ategol.
- Nodi manylion rhinweddau cyffredinol y cynnig fel yr amlygwyd gan Estyn yn eu hymateb.

Gall yr adroddiad ymgynghori hefyd wneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol neu’r Corff Llywodraethu ynghylch sut i fwrw ymlaen (h.y. cyhoeddi'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt gydag unrhyw addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynigion a pharhau â’r sefyllfa bresennol neu wneud newidiadau sylweddol i’r cynnig ac ailymgynghori).

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw safbwyntiau a fynegir gan blant a phobl ifanc y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn cael eu hamlygu yn adroddiad yr ymgynghoriad, a'i fod yn hygyrch iddynt.

Bydd adroddiad yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a bydd yn destun yr holl wiriadau hygyrchedd er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bob ymgynghorai. Bydd copïau caled o’r adroddiad ar gael ar gais.

### Cyhoeddi Hysbysiadau Statudol

Mae hyn yn amodol ar gymeradwyo'r Adroddiad Ôl-ymgynghori sydd i'w gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol ar 20 Ionawr 2026. Sylwch y gall y dyddiad hwn newid.

Os derbynnir yr argymhelliad, yna bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod yn dechrau ar 6 Chwefror 2026. Sylwch y gall y dyddiad hwn newid.  Bydd hysbysiadau statudol yn cael eu harddangos wrth fynedfeydd yr ysgolion yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy.

### Cyfnod Gwrthwynebu Statudol

| | |
|---|---|
| Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi a’r Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol yn dechrau | 6 Chwefror 2026 |
| Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol yn dod i ben | 10 Mawrth 2026 |

Sylwch y gall y dyddiadau hyn newid.

Os codir unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, cyhoeddir adroddiad a bydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Hysbysiad statudol yw’r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Gwneir hyn dim ond os bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor wedi penderfynu bwrw ymlaen â chynnig ar ôl ystyried yr holl ymatebion yn dilyn y broses ymgynghori. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Gofynnwn yn garedig i ymgyngoreion ysgrifennu atom yn ystod y cyfnod gwrthwynebu dim ond os oes ganddynt wrthwynebiad swyddogol i'r hysbysiad statudol. Bydd yn rhaid trin unrhyw sylwadau cadarnhaol a dderbynnir yn ystod y cyfnod hwn fel gwrthwynebiadau hyd yn oed os ydynt o blaid y cynnig.

Gall ymgyngoreion gyflwyno eu gwrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol drwy e-bostio DeeValleyConsultation@wrexham.gov.uk neu drwy ysgrifennu at Ymgynghoriad Dyffryn Dyfrdwy, Addysg, Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8BG.

### Penderfynu ar y Cynnig

Bydd canlyniadau'r Hysbysiad Statudol yn cael eu rhoi gerbron y Bwrdd Gweithredol ym mis Gorffennaf 2026 a chytunir ar benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu'r cynnig. Sylwch y gall y dyddiad uchod newid.

**Hysbysiad o'r Penderfyniad**

Yn amodol ar weithredu'r cynnig, bydd hysbysiad penderfynu ar gael i bob ymgynghorai. Bydd yr hysbysiad hwn hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl yn dilyn y penderfyniad.

## Atodiad A-Data Ysgolion Cyfagos

Rhagwelir na ddylai cyflwyno'r opsiwn a ffefrir gael effaith andwyol ar ysgolion eraill yn yr ardal gyfagos (h.y. o fewn pellter cerdded dwy filltir o Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte), gan fod digon o leoedd mewn ysgolion yn yr ardal gyfagos.

| **Ysgol Gynradd** | **Pellter** | **Cyfrwng Iaith** | **Categori Cyflwr yr Adeilad** | **Lleoedd** | **Y Nifer ar y Gofrestr (Llawn amser)** | **Lleoedd Gwag** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre | 1.400 | Cyfrwyng Saesneg | B | 70 | 42 | 28 |
| Ysgol Acrefair | 1.513 | Cyfrwyng Saesneg | C | 210 | 189 | 21 |
| Ysgol Min y Ddôl | 1.552 | Cyfrwyng Cymraeg | B | 140 | 105 | 35 |
| Ysgol Cefn Mawr | 1.587 | Cyfrwyng Saesneg | B | 210 | 179 | 31 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth | 1.856 | Cyfrwyng Saesneg | B | 105 | 45 | 60 |

## Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru – Pentre

| **Lleoedd** | 70 | **NDC** | 10 | **Lleoedd Meithrin** | 10 |
|---|---|---|---|---|---|

### Cyfanswm nifer y disgyblion ar y gofrestr (data CYBLD)

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | 54 | 16 | 22.86% |
| 2021/22 | 61 | 9 | 12.86% |
| 2022/23 | 51 | 19 | 27.14% |
| 2023/24 | 44 | 26 | 37.14% |
| 2024/25 | 42 | 28 | 40.00% |

**Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau.*

### Rhagamcanion Niferoedd Disgyblion

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2025/26 | 39 | 31 | 44.29% |
| 2026/27 | 33 | 37 | 52.86% |
| 2027/28 | 26 | 44 | 62.86% |
| 2028/29 | 26 | 44 | 62.86% |
| 2029/30 | 26 | 44 | 62.86% |

**Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau.*

## Ysgol Acrefair

| **Lleoedd** | 210 | **NDC** | 30 | **Lleoedd Meithrin** | 30 |
|---|---|---|---|---|---|

### Cyfanswm nifer y disgyblion ar y gofrestr (data CYBLD)

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | 199 | 11 | 5.24% |
| 2021/22 | 194 | 16 | 7.62% |
| 2022/23 | 191 | 19 | 9.05% |
| 2023/24 | 186 | 24 | 11.43% |
| 2024/25 | 189 | 21 | 10.00% |

**Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau*

### Rhagamcanion Niferoedd Disgyblion

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2025/26 | 179 | 31 | 14.76% |
| 2026/27 | 168 | 42 | 20.00% |
| 2027/28 | 165 | 45 | 21.43% |
| 2028/29 | 164 | 46 | 21.90% |
| 2029/30 | 157 | 53 | 25.24% |

**Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau*

## Ysgol Min y Ddôl

| Lleoedd | 140 | NDC | 20 | Lleoedd Meithrin | 20 |
|---|---|---|---|---|---|

### Cyfanswm nifer y disgyblion ar y gofrestr (data CYBLD)

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | 94 | 46 | 32.86% |
| 2021/22 | 101 | 39 | 27.86% |
| 2022/23 | 103 | 37 | 26.43% |
| 2023/24 | 100 | 40 | 28.57% |
| 2024/25 | 105 | 35 | 25.00% |

**Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau*

### Rhagamcanion Niferoedd Disgyblion

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2025/26 | 108 | 32 | 22.86% |
| 2026/27 | 121 | 19 | 13.57% |
| 2027/28 | 129 | 11 | 7.86% |
| 2028/29 | 129 | 11 | 7.86% |
| 2029/30 | 129 | 11 | 7.86% |

**Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau*

## Ysgol Cefn Mawr

| **Lleoedd** | 210 | **NDC** | 30 | **Lleoedd Meithrin** | 30 |
|---|---|---|---|---|---|

### Cyfanswm nifer y disgyblion ar y gofrestr (data CYBLD)

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | 161 | 49 | 23.33% |
| 2021/22 | 160 | 50 | 23.81% |
| 2022/23 | 171 | 39 | 18.57% |
| 2023/24 | 174 | 36 | 17.14% |
| 2024/25 | 179 | 31 | 14.76% |

**Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau*

### Rhagamcanion Niferoedd Disgyblion

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2025/26 | 162 | 48 | 22.86% |
| 2026/27 | 152 | 58 | 27.62% |
| 2027/28 | 149 | 61 | 29.05% |
| 2028/29 | 147 | 63 | 30.00% |
| 2029/30 | 145 | 65 | 30.95% |

**Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau*

## Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth

| Lleoedd | 105 | NDC | 15 | Lleoedd Meithrin | 15 |
|---|---|---|---|---|---|

### Cyfanswm nifer y disgyblion ar y gofrestr (data CYBLD)

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | 46 | 59 | 56.19% |
| 2021/22 | 55 | 50 | 47.62% |
| 2022/23 | 51 | 54 | 51.43% |
| 2023/24 | 43 | 62 | 59.05% |
| 2024/25 | 45 | 60 | 57.14% |

**Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau.*

### Rhagamcanion Niferoedd Disgyblion

| Blwyddyn | Cyfanswm Llawn Amser | Lleoedd Gwag | Canran |
|---|---|---|---|
| 2025/26 | 49 | 56 | 53.33% |
| 2026/27 | 51 | 54 | 51.43% |
| 2027/28 | 46 | 59 | 56.19% |
| 2028/29 | 45 | 60 | 57.14% |
| 2029/30 | 42 | 63 | 60.00% |

**Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin a nifer y disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau.*